**ELL 04-01(p2)**

## Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Sefydlu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Ers mis Medi 2000, mae'r Cyngor wedi:

- penodi ei dîm bach craidd o staff
- cyfarfod ddwywaith yng Nghaerdydd a Wrecsam
- sefydlu 4 pwyllgor, ac mae pob un ohonynt wedi cyfarfod
    - *Pwyllgor Gweithredol*
    - *Pwyllgor Polisi*
    - *Pwyllgor Aelodaeth, Cofrestru a Disgyblu*
    - *Pwyllgor Archwilio*
- cytuno ar ei Gynllun Corfforaethol cyntaf, 2001-04
    - *i gynnig llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol i'r proffesiwn ynghylch materion addysgu;*
    - *i godi statws addysgu fel proffesiwn;*
    - *i gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o ran ymddygiad ac arfer proffesiynol;*
    - *i gynnal sefydliad effeithlon sy'n cynnig gwerth am arian;*
- cynnal cyfarfodydd gydag amrywiaeth eang o gyrff partner – Cynghorau Addysgu Cyffredinol, undebau athrawon a sefydliadau cenedlaethol eraill gan fynychu digwyddiadau, cynadleddau a seminarau
- trefnu cyfres o fforymau agored i wrando ar safbwyntiau

athrawon

## Cyfrifoldebau Cychwynnol y Cyngor

<u>Cynnydd</u>

Mae'r Cyngor:

- wedi cofrestru dros 27,000 o athrawon a 6,500 o athrawon llanw gan ddefnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd gan Awdurdodau Addysg Lleol erbyn 1 Chwefror 2001
- yn archwilio ac yn diwygio cofnodion ar ôl gohebu ag athrawon unigol
- wedi gwahodd athrawon eraill sydd â Statws Athro Cymwys i gofrestru gyda'r Cyngor
- wedi cytuno ar strategaeth ar gyfer datblygu'r *Côd Proffesiynol ar gyfer Athrawon* a dechrau ymgynghori ar ei gynnwys
- wedi ymateb i ymgynghoriad y Cynulliad ynglyn â’i Reoliadau swyddogaethau disgyblu ac yn llunio ei drefniadau mewnol ei hun ar gyfer ymgynghoriad

## Materion Sy'n Weddill I'r Cyngor

- Delwedd y Cyngor – mae'r Cyngor wedi:
    - gohebu ag athrawon unigol
    - cynnal cyfarfodydd gydag undebau athrawon a sefydliadau eraill
    - sefydlu safle ar y we – www.gtcw.org.uk; ac
    - mae’n datblygu strategaeth gyfathrebu

      Fodd bynnag, mae angen cyfleu delwedd, nodau a phwrpas y Cyngor i athrawon eto.

    - Ffioedd cofrestru – Bydd cymorth ariannol y Cynulliad yn dod i ben ym mis Medi 2001. Mae'r Cyngor am ddangos ei fod yn annibynnol trwy ei ariannu ei hun trwy ffioedd cofrestru'r athrawon. Fodd bynnag, mae’r Cyngor wedi gwneud cais am rywfaint o arian ychwanegol gan y Cynulliad wrth iddo geisio ymsefydlu.

## Prif Faterion Polisi Sy'n Dod I'r Amlwg

- Bydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn brif flaenoriaeth ym mholisi’r Cyngor – mae angen i hyfforddiant a datblygiad gyrfa fod yn gontinuwm gan ddechrau gydag HCA ac arwain at ddatblygiad proffesiynol cynnar ac yna DPP
- Recriwtio athrawon – mae'r Cyngor yn pryderu y gallai’r data a gasglwyd ynglyn â recriwtio athrawon guddio'r sefyllfa go iawn, yn enwedig mewn rhai pynciau uwchradd – mae angen un cynllun casglu data wedi'i gyd-drefnu

Yn ogystal, mynegwyd pryderon difrifol ynghylch:

- Ariannu mentrau – awgryma tystiolaeth fod anfodlonrwydd ynglyn â chyflymdra'r ymateb i fentrau addysg o Loegr yng Nghymru, a pha mor glir ac agored yw'r drefn ariannu yng Nghymru